

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

PAWB

Mae cerdd rydd PAWB yn un glasurol ei naws, ac mae'r Gymraeg yn goeth. Angau yw thema'r gerdd, a'r sicrwydd bod marwolaeth yn rhan o fywyd pawb: 'Rhifwyd ein dyddiau dan ormes Amser.' Er bod y 'gwanwyn olaf' wedi dod, mae'r mynyddoedd, y bannau, yn parhau, fel yng ngherdd enwog Ceiriog 'Aros mae'r mynyddau mawr'. Mae'n gerdd ddwys, a phregethwrol ei naws, a hynny'n annisgwyl, braidd, mewn cystadleuaeth i feirdd o dan 25 oed. Er bod ambell ddelwedd dda, fel Amser wedi'i bersonoli yn 'dwyn oriau megis arian', y gwendid pennaf yw bod y bardd yn ymylu ar fod yn rhyddieithol, ac o ganlyniad nid yw'r gerdd yn 'canu'. Roeddem yn hyderus fod yma ddeunydd bardd, ond nad yw, y tro hwn, wedi llwyddo i fynegi'i hun gystal ag y gallai.